



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

28/10/2022

Teitl: Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 a'r archwiliad perthnasol.

Awdur: Dewi A Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ynghyd ag adroddiad 'ISA 260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

2. Y Penderfyniad a Geisir

2.1 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r:-

- **Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC**
- **Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) am 2021/22.**

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 16 o'r adroddiad ac Atodiad 3 'ISA260' Archwilio Cymru.

3.2 Gofynnir i Gadeirydd y Bwrdd, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r BUEGC gymeradwyo'r uchod.

3.3 Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Mae BUEGC, am y flwyddyn gyntaf yn 2021/22, wedi cynhyrchu Datganiad Cyfrifon blynyddol llawn yn hytrach na ffurflen flynyddol, a ddefnyddir ar gyfer Cyd-Bwyllgorau llai eu maint sydd â trosiant llai na £2.5m.

4.2 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft 2021/22 (amodol ar archwiliad) i'r BUEGC ar 15 Gorffennaf 2022, pryd bu craffu priodol.

4.3 Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r BUEGC ar 28 Hydref 2022 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru, sydd o fewn yr amserlen statudol diwygiedig o 30 Tachwedd 2022.

4.4 Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf i'r Bwrdd ar 29 Ebrill 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

5. Goblygiadau Cyfreithiol

5.1 Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorrff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-Bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy"

a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

6. Atodiadau

Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2021/22

Adroddiad Archwilio Cymru

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:

Nid oes unrhyw fater yn deillio o'r adroddiad na barn Archwilio Cymru sydd yn creu angen am sylwadau penodol o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol – Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.